TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Construction (Extended Diploma) - Civil Engineering Level 3

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol os ydych yn gobeithio dilyn gyrfa yn nisgyblaethau technegol y diwydiant adeiladu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod wedi ei gyfyngu i, bensaernïaeth, cynllunio, dylunio adeiladau, rheoli prosiect, gwasanaeth mesur meintiau, gwneud arolwg o adeiladau a thechnegwyr CAD.

Dyma'r cwrs i chi os...

...oes gennych ddiddordeb brwd mewn peirianneg sifil

...hoffech gael gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol

...hoffech gael gwybodaeth dechnegol a deinamig o adeiladu

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae yna brentisiaethau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) ar gael, a bydd hyn hefyd yn ffurfio dilyniant naturiol i'r prentisiaid hynny sydd eisoes wedi cyflawni NVQ seiliedig ar grefft.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dilyn llwybr proffesiynol mewn adeiladu, mae hwn yn gwrs dilyniant da i chi. Fe allai'r cwrs gynnwys cynllunio, cynaliadwyedd, dylunio neu weithio fel rhan o dîm ar safle adeiladu. Byddwch yn astudio unedau craidd ac unedau dewisol, gan gynnwys:

Dylunio
Adeiladu
Tirfesur
Amcangyfrif
Cynllunio a gweinyddu

Byddwch yn ymgymryd â phrosiectau rhyng-broffesiwn cyfredol a gweithgareddau ymarferol ar y safle, gan gynnwys tirfesur topograffaidd ac unionlin, cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD) a thechnegau lluniadu graffegol.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs, a fydd yn cynnwys gweithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol ac, ar ôl ei gwblhau, bydd gennych gymwysterau mewn:

Lefel 3 mewn Adeiladu

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol gyda Gradd Deilyngdod a Gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gofynnir i chi hefyd:

Fod â diddordeb mewn adeiladau a'r adeiladwaith trefol ehangach – nid yw adeiladu yn swydd sydd wedi'i chyfyngu i oriau gwaith y dydd ond yn hytrach yn ffordd o fyw
Gallu gweithio o dan bwyso fel unigolyn neu fel rhan o dîm er mwyn cwblhau'r aseiniadau i derfynau amser a manylebau tynn

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae amgyffred gweddol o fathemateg yn ddymunol, gan fod llawer o'r modiwlau yn dibynnu ar egwyddorion mathemategol sylfaenol mewn cyd-destun adeiladu.

Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant.

Beth sy'n digwydd nesaf?

HNC/D mewn Peirianneg Sifil

Prifysgol i astudio tuag at radd

Technolegau Peirianneg Ymgeisiad am achrediad proffesiynol

Gwybodaeth Ychwanegol

Adolygir yr holl gostau, sy'n agored i newidiadau.